



# Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru 2022

## Adroddiad Ton Mehefin



RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:  
53/2022  
DYDDIAD CYHOEDDI:  
07/07/2022



ISBN Digidol: 978-1-80364-478-3

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.  
This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron 2022



## Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru 2022: Adroddiad Cam mis Mehefin

Anthony Lydall, Strategic Research and Insight



Barn yr ymchwilydd ac nid barn Llywodraeth Cymru o reidrwydd yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o fanylion, cysylltwch â:  
Tîm Ymchwil a Mewnwelediadau  
Croeso Cymru  
Grŵp Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

E-bost: [ymchwiltwristiaeth@llyw.cymru](mailto:ymchwiltwristiaeth@llyw.cymru)

## Cynnwys

1. Prif Ganfyddiadau .....	2
2. Cefndir a Methodoleg .....	4
3. Perfformiad Hyd yn Hyn .....	5
4. Tueddiadau Archebu a Chanslo .....	8
5. Prinder Staff .....	12
6. Archebion Ymlaen Llaw a Hyder .....	15
7. Ymateb i Chwyddiant .....	21
8. Ardoll ymwelwyr lleol .....	25

## 1. Prif Ganfyddiadau

### Hanner tymor mis Mai ar yr un lefel â lefelau cyn COVID-19

- 1.1 Yn ystod gwyliau hanner tymor mis Mai, a oedd yn cynnwys dau ddiwrnod gŵyl banc ar gyfer Jiwbilî'r Frenhines, cafodd tua chwarter (23%) o fusnesau fwy o gwsmeriaid na'r lefel arferol am y cyfnod cyn COVID-19. Derbyniodd tua hanner (52%) yr un lefel o gwsmeriaid a gwnaeth chwarter (25%) dderbyn llai. Bwytai / tafarndai / caffis oedd y sector a oedd yn perfformio orau, gyda 38% yn rhagori ar y lefel arferol am y cyfnod cyn COVID-19.

### Mae tueddiadau archebu yn dangos bod cwsmeriaid yn tueddu i archebu lle ar y funud olaf, a cheir rhywfaint o ganslo

- 1.2 Dywed 36% o fusnesau fod mwy o archebion funud olaf eleni, tra bod 22% yn dweud bod archebion yn cael eu gwneud fwy ymlaen llaw. Mae'r 42% sy'n weddill yn dweud nad oes unrhyw newid arwyddocaol yn y duedd.
- 1.3 Mae 8% o fusnesau yn profi lefel 'sylweddol' o archebion yn cael eu canslo, ac mae 24% yn cael 'rhywfaint' yn canslo. Mae rhai defnyddwyr yn 'gorarchebu' eu gwyliau yn fwriadol gyda'r bwriad o ganslo opsiynau diangen ar y funud olaf. Mae'r tywydd a chostau byw hefyd yn chwarae rhan.

### Dal yn ôl ar gynyddu prisiau'n sylweddol

- 1.4 Er bod busnesau'n gweld cynnydd sylweddol mewn costau gweithredu, nid yw'r cynnydd hwn yn cael ei drosglwyddo i gwsmeriaid eto. Nid yw bron i hanner (46%) y busnesau yn newid eu prisiau ar gyfer yr haf hwn, ac mae cyfran debyg (45%) ond yn eu codi 'ychydig'. Mae llawer o weithredwyr yn cydnabod bod terfyn ar yr hyn y gall defnyddwyr ei fforddio ac nad ydynt am brisio eu hunain allan o'r farchnad.

### Ymwelwyr yr haf: mae llawer yn dibynnu ar gostau byw a theithio dramor

- 1.5 Mae deiliadaeth sydd wedi'i harchebu ar gyfartaledd ymhlith gweithredwyr llety yw tua 71% ar gyfer mis Gorffennaf a 70% ar gyfer mis Awst. Mae'r tueddiadau a soniwyd amdanynt uchod o ran ymddygiad archebu a chanslo ar y funud olaf yn ei gwneud ychydig yn anodd rhagfynegi perfformiad yn seiliedig ar archebion ymlaen llaw.
- 1.6 Serch hynny, mae'r rhagolygon ar hyn o bryd ychydig yn siomedig gan fod y galw am wyliau domestig yn uchel iawn yr haf diwethaf, ond mae'n ymddangos y bydd yn rhaid i fusnesau ymdrechu'n galetach i lenwi'r gwelyau eleni. Credir mai'r ddau ffactor allweddol yw costau byw a'r cyfle (os yw gwyliau'n fforddiadwy) i ddechrau mynd ar wyliau dramor eto.

## **Ardoll ymwelwyr lleol**

- 1.7 Gofynnwyd i fusnesau sut yr hoffent weld yr arian a godir drwy'r ardoll ymwelwyr arfaethedig yn cael ei wario – os yw'n mynd rhagddo yn eu hardal. Gyda'i gilydd, mae 45% eisiau ychwanegu at seilwaith cyhoeddus neu ei fod yn cael ei wella. Mae marchnata'r ardal i dwristiaid (21%) hefyd yn opsiwn poblogaidd. Fodd bynnag, gwrthododd 19% ag ateb oherwydd eu bod yn gwrthwynebu'r syniad o'r ardoll yn llwyr.

## 2. Cefndir a Methodoleg

### Beth yw Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru?

2.1 Cynlluniwyd Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru i roi adborth cyflym ar sut mae'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru yn perfformio ar gyfnodau allweddol yn ystod y flwyddyn. Mae'r cam hwn yn cwmpasu'r Pasg, gwyliau hanner tymor mis Mai, ac archebion ymlaen llaw am weddill y flwyddyn.

### Sut y cynhaliwyd yr arolwg?

2.2 Rydym wedi cynnal 900 o gyfweiliadau dros y ffôn. Mae canlyniadau'r cwestiynau a ofynnir i bawb yn gywir i  $\pm 3.3\%$ . Mae'r sampl yn adlewyrchu'n fras y diwydiant twristiaeth yng Nghymru ac fe'i dangosir isod yn ôl sector a rhanbarth.

Sector / Rhanbarth	Gogledd	Canolbarth	De-orllewin	De-ddwyrain	Cyfanswm
Llety â gwasanaeth	99	56	81	43	<b>279</b>
Hunanddarpar	81	77	81	26	<b>265</b>
Meysydd carafanau / gwersylla	52	24	34	12	<b>122</b>
Hostelau	2	2	7	2	<b>13</b>
Atyniadau	21	27	15	23	<b>86</b>
Gweithredwyr gweithgareddau	11	6	12	5	<b>34</b>
Bwytai / tafarndai / caffis	25	25	21	30	<b>101</b>
<b>Cyfanswm</b>	<b>291</b>	<b>217</b>	<b>251</b>	<b>141</b>	<b>900</b>


2.3 Mae 61% o'r busnesau yn y sampl yn cael eu graddio gan Groeso Cymru. Mae'r samplau sydd wedi eu graddio a'r samplau nad ydynt wedi eu graddio wedi eu gwasgaru ar draws y gwahanol ranbarthau a sectorau ar wahân i fwytai / tafarndai / caffis, nad ydynt yn cael eu graddio.

2.4 Cynhaliwyd pob cyfweiliad dros y ffôn gyda pherchnogion neu reolwyr busnesau rhwng 6 ac 17 Mehefin.

### 3. Perfformiad Hyd yn Hyn

#### Perfformiad y Pasg

##### C1a "Faint o gwsmeriaid ydych chi wedi'u cael yn ystod Pasg o'i gymharu a blwyddyn arferol?"



Mae atebion 'ddim yn gwybod' a 'ddim yn berthnasol' wedi eu heithrio

Maint y  
sampl: 820

#### Mae lefelau'r Pasg ychydig i lawr ar y cyfan

3.1 Llwyddodd un o bob pump (20%) o weithredwyr i ragori ar lefel arferol cwsmeriaid adeg y Pasg cyn COVID-19, a chyflawnodd tua hanner (53%) y lefel arferol. Ond roedd gan tua chwarter (27%) lai o gwsmeriaid nag arfer. Roedd COVID-19 yn dal i gael effaith ar fusnes ar yr adeg honno, gan y gallai achosion achosi i rai cwsmeriaid ganslo ar y funud olaf.

*"Dros y Pasg, roedd cyfraddau COVID-19 yn dal yn uchel iawn. Gwnaethon ni gollu llawer o gwsmeriaid bob dydd oherwydd COVID-19 ... roedd natur COVID-19 yn golygu eu bod nhw'n aml yn canslo llai na 24 awr cyn cyrraedd, felly allen ni ddim llenwi'r lleoedd hynny."*


Darparwr gweithgareddau, y De-ddwyrain

3.2 Yn ôl rhanbarth, De-ddwyrain Cymru oedd yn ei chael hi fwyaf anodd cyrraedd lefelau arferol o gwsmeriaid cyn COVID-19. Roedd gan 16% fwy o gwsmeriaid nag arfer, ond roedd gan 36% lai.

*"Rydyn ni'n gweld mai'r duedd ar gyfer eleni yw llai o archebion ac arosiadau byrrach os ydyn nhw wedi archebu."*

Llety â gwasanaeth, y De-ddwyrain

## Perfformiad gwyliau hanner tymor mis Mai



### Ar yr un lefel â lefelau cyn COVID-19

- 3.3 Roedd eleni yn cynnwys Gŵyl y Banc ar gyfer y Jiwbilf Platinwm ddydd Gwener, 3 Mehefin yn dilyn Gŵyl Banc y Gwanwyn a newidiwyd i ddydd Iau, 2 Mehefin i ffurfio penwythnos hir. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd hyn hefyd yn cyd-fynd â gwyliau hanner tymor yr ysgolion.
- 3.4 Yn gyffredinol, perfformiodd y diwydiant twristiaeth ar lefelau tebyg i flwyddyn arferol cyn COVID-19 yn ystod y cyfnod hwn. Perfformiodd bwytaï, tafarndai a chaffis yn arbennig o dda yn ystod y cyfnod hwn, tra bod perfformiad yn gymysg mewn sectorau eraill.

*“Dyn ni’n ddibynnol iawn ar y tywydd. Gwnaeth penwythnos Jiwbilf’r Frenhines ein twyllo. Ar ddydd Llun a dydd Mawrth, roedd pethau’n edrych yn dawel ond llifodd yr archebion i mewn ar y dydd Iau ar gyfer dydd Gwener a dydd Sadwrn.”*  
 Llety â gwasanaeth, y De-orllewin


*“Roedden ni’n wag yn ystod hanner tymor mis Mai, sy’n gwbl anhygoel. Dwi’n poeni’n fawr am eleni – ‘dyw pobl ddim yn archebu.”*  
 Llety hunanddarpar, Gogledd

### Cymariaethau â 2021

- 3.5 Roedd yr un cwestiwn a ofynnwyd 12 mis yn ôl hefyd yn dangos bod lefelau cwsmeriaid hanner tymor mis Mai yn debyg i flwyddyn arferol cyn COVID-19. Fodd bynnag, 12 mis yn ôl, roedd llawer o fusnesau yn gweithredu ar gapasiti sylweddol is oherwydd canllawiau COVID-19 ac ni allent fodloni’r galw. Mae’n ymddangos tra bod llawer o ddefnyddwyr y DU yn awyddus i ddianc ar wyliau domestig y llynedd, mae’r galw wedi lleihau eleni bellach.



## Gwahaniaethau yn ôl rhanbarth



### Ceir ychydig o amrywiaeth fesul rhanbarth


- 3.6 Roedd perfformiad yng Ngogledd a De Orllewin Cymru yn gymharol debyg i berfformiad cyn COVID-19 (wrth gymharu'r gyfran â mwy o gwsmeriaid â'r gyfran â llai o gwsmeriaid).
- 3.7 Ar y llaw arall, roedd Canolbarth a De-ddwyrain Cymru i lawr ar y cyfan o'i gymharu â lefelau ar gyfer yr adeg o'r flwyddyn cyn COVID-19, ac mae rhai yn gweld hyn fel arwydd o'r hyn sydd i ddod.

*"Rydyn ni mor brysur ag yr oedden ni cyn COVID-19 gyda'r holl gwsmeriaid."*  
Atyniad, y Gogledd

*"Rydyn ni'n meddwl y bydd hi'n haf tawel iawn eleni. Rydyn ni dal ddim yn cael ein prif sail cwsmeriaid yn ôl, sef y genhedlaeth hŷn. Rydyn ni wedi cael ychydig iawn o ymholiadau gan gwsmeriaid tramor, tra bydden ni wedi cael llawer cyn COVID-19."*  
Atyniad, De-ddwyrain

## 4. Tueddiadau Archebu a Chanslo

### Ymddygiad archebu



### Adborth cymysg ar ymddygiad archebu

4.1 Mae mwy na hanner (58%) y gweithredwyr yn sylwi ar newid yn amseriad archebion eleni. Ceir adborth cymysg ynghylch a yw hyn yn golygu bod cwsmeriaid yn archebu'n gynt neu'n hwyrach nag arfer, ond mae'r atebion yn dangos tuedd at fwy o ymddygiad munud olaf. Mae sawl rheswm am hyn – y prif rai yw aros am y tywydd a gweld yr hyn y gellir ei fforddio. Mae'r gyfran sy'n gweld mwy o archebion ar y funud olaf yn uwch yng Ngogledd Cymru (43%) nag yng ngweddill Cymru (33%).

*"Mae pobl yn archebu yn seiliedig ar y tywydd. Os yw hi'n mynd i fod yn braf, byddwn ni'n cael llawer o archebion munud olaf."*

Llety â gwasanaeth, y Gogledd

### Gwahaniaethau yn ôl sector

4.2 Nid yw'r atebion rhwng sectorau llety yn amrywio'n sylweddol. Mae tua dau o bob pump (39%) o weithredwyr llety yn gweld mwy o archebion munud olaf, o gymharu â 22% yn gweld mwy o archebion ymlaen llaw.

4.3 Mewn sectorau nad ydynt yn sectorau llety, nid oedd rhai busnesau yn mynnu archebion ymlaen llaw cyn COVID-19, neu hyd yn oed yn hwyluso archebion ymlaen llaw mewn rhai achosion. Felly, mae dull gweithredu'r gweithredwr o ran archebu ymlaen llaw yn dylanwadu ar y newid yn amseriad archebion nawr ac yn flaenorol. Mae hefyd yn dibynnu ar eu marchnad graidd, e.e. ysgolion ar gyfer atyniadau a darparwyr gweithgareddau.

*"Rydyn ni'n delio â grwpiau ysgol yn bennaf. Maen nhw'n archebu ymhellach ymlaen llaw nag erioed o'r blaen."*

Darparwr gweithgareddau, y Gogledd

*“Roedd llawer yn archebu mwy ymlaen llaw ar ddechrau’r flwyddyn gan mai dyna’r unig ffordd i fynd i mewn i’r castell ond nawr, oherwydd bod cyfyngiadau wedi newid, mae mwy o bobl yn dod ar y diwrnod.”*


Atyniad, y Gogledd

*“Rydyn ni’n cael mwy o archebion ymlaen llaw nawr gan ei bod yn system newydd y gwnaethom ei sefydlu yn ystod y cyfyngiadau symud.”*

Atyniad, y Gogledd

## Ymddygiad canslo

### C3 "I ba raddau, os o gwbl, ydych chi'n gweld fod cwsmeriaid yn canslo archebion eleni?"



## Adroddwyd am rywfaint o ymddygiad canslo, ond nid gan y mwyafrif o weithredwyr

4.4 Mae tua dau o bob tri (68%) o weithredwyr yn dweud bod archebion yn cael eu canslo 'i raddau bach neu ddim o gwbl'. Dywed rhai eu bod yn gweld llawer o bobl yn canslo'r llynedd, ond mae'r duedd honno wedi tawelu eleni.

*“Mae nifer y bobl sy'n canslo i lawr ers y llynedd oherwydd roedd pobl yn archebu sawl lle a 'dyw hynny ddim yn digwydd eleni.”*

Llety â gwasanaeth, y Gogledd

4.5 Ymhlith gweithredwyr sy'n cael pobl yn canslo, mae rhesymau hysbys neu canfyddedig yn cynnwys y canlynol:

- Cwsmeriaid sy'n archebu nifer o opsiynau (yn enwedig tramor ac yn y DU) gyda'r bwriad o ganslo opsiynau diangen ar y funud olaf
- Rhesymau ariannol o ganlyniad i'r cynnydd sydyn mewn costau byw
- Trefnwyr teithiau bws yn methu â llenwi'r lleoedd
- Aros am y tywydd

*“Dym ni'n cael llawer o weithredwyr coetsys mawr yn archebu ymlaen llaw ac wedyn yn canslo achos dydyn nhw ddim yn gallu cael y niferoedd.”*

Atyniad, De-ddwyrain

*“Mae pobl yn canslo eithaf tipyn. Dwi’n meddwl eu bod nhw’n archebu amrywiaeth o leoedd er mwyn bod yn saff ac yn dewis ar y funud olaf.”*

Bwyty, y De-ddwyrain

*“Rydyn ni’n cael llawer o gwsmeriaid yn dwbl archebu yma a’u gwyliau dramor ac wedyn yn canslo ar y funud olaf.”*

Llety hunanddarpar, Canolbarth

*“Mae rhai cwsmeriaid yn canslo ac yn rhoi rhesymau ariannol.”*

Llety hunanddarpar, Gogledd

## **Nid yw rhai cwsmeriaid hyd yn oed yn canslo**

4.6 Yn y sector bwyty / tafarndai / caffis, mae gweithredwyr yn ffodus os ydyn nhw hyd yn oed yn cael gwybod am ganslo. Nid yw rhai archebwyr yn troi i fyny.

*“Dyw pobl ddim hyd yn oed yn canslo, maen nhw jyst ddim yn dod. Mae hyn wedi bod yn gyffredin ers y pandemig.”*

Tafarn, y Canolbarth

*“Nid yw’n wir ein bod ni’n cael llawer o bobl yn canslo; yn hytrach, mae pobl yn archebu byrddau ar y funud olaf a ddim yn troi i fyny.”*

Bwyty, y de-orllewin

## **Gwahaniaethau fesul rhanbarth a sector**

4.7 Nid yw gwahaniaethau fesul rhanbarth a sector yn sylweddol ar y cyfan, ac eithrio ei bod yn ymddangos bod mwy o bobl yn canslo yn y sector carafanau a gwersylla (mae 14% yn gweld pobl yn canslo i raddau helaeth). Mae'r sector yn dibynnu'n fawr ar y tywydd, fel y dangoswyd mewn llawer o arolygon baromedr blaenorol a ddangosodd newidiadau sylweddol mewn lefelau ymwelwyr mewn cydberthynas agos â thywydd da neu wael.

4.8 Ond mae'r sector hefyd yn sensitif iawn i brisiau tanwydd os yw cwsmeriaid yn dod â'u cartref modur neu eu carafán eu hunain, a chredir bod hyn hefyd yn rheswm allweddol dros ganslo.

*“Cawson ni lawer o archebion ymlaen llaw ym mis Ionawr a mis Chwefror ond nawr rydyn ni’n cael llawer o bobl yn canslo – rydyn ni’n meddwl oherwydd tanwydd.”*

Parc carafanau, y Gogledd

*“Rydyn ni wedi sylwi ar lawer mwy o archebion ar y funud olaf a mwy o bobl yn canslo ers i brisiau tanwydd godi.”*

Parc carafannau, y Gogledd

## **Camau i fynd i'r afael ag ymddygiad canslo**

4.9 Mae rhai gweithredwyr yn cymryd camau i leihau effeithiau canslo ar eu busnes. Mae'r rhain yn cynnwys cymryd blaendaliadau mwy neu newid y polisi canslo.

*“Mae’r rhan fwyaf o archebion bellach ar-lein, gyda pholisi canslo clir wedi’i esbonio oherwydd bod gormod o bobl yn canslo ar y funud olaf.”*

Atyniad, Canolbarth Cymru

*“Rydyn ni wedi newid ein polisi canslo ers i gyfyngiadau gael eu codi. Os oes COVID-19 ar rywun nawr, rydyn ni’n gofyn am brawf yn yr ap profi ac olrhain a byddwn yn rhoi ad-daliad neu’n gohirio ei arhosiad.”*

Llety â gwasanaeth, y De-orllewin


*“Mae gennyn ni bolisi canslo cadarn felly mae pobl yn trosglwyddo eu harchebion i ffrindiau neu deulu os ’dyn nhw ddim yn gallu dod. Rydyn ni’n annog hynny.”*

Llety â gwasanaeth, y De-orllewin



## 5. Prinder Staff

### Graddau'r prinder staff



#### Mae prinder staff yn dal i achosi problemau mewn rhai sectorau

- 5.1 Mae tua dau o bob pump (42%) o fusnesau sy'n cyflogi staff heblaw am y perchnogion yn cael eu heffeithio gan brinder staff ar hyn o bryd. Mae hyn yn cyfateb i tua chwarter (26%) o'r holl ymatebwyr (os cynhwysir busnesau nad ydynt yn cyflogi staff). Mae hyn yn debyg iawn i'r sefyllfa a adroddwyd ddiwethaf yn y baromedr gwanwyn (ym mis Mawrth).
- 5.2 Mae prinder fwyaf amlwg ymhlith darparwyr gweithgareddau, bwytai / tafarndai / caffis a llety â gwasanaeth. Nid yw rhai cyflogwyr hyd yn oed yn derbyn ceisiadau nac yn gweld ymgeiswyr yn troi i fyny i gyfweiliadau.

*"Rydyn ni wedi hysbysebu am ddwy swydd ond dim ond dau ymgeisydd gawson ni, ond ychydig flynyddoedd yn ôl, bydden ni wedi cael 30."*  
Atyniad, y Gogledd

*"Mae'n anodd iawn dod o hyd i gogyddion a staff y drws. Roedd gen i 25 o gyfweiliadau wedi'u trefnu a dim ond chwech wnaeth droi i fyny."*  
Tafarn, De-orllewin


- 5.3 Mae rhai busnesau mewn lleoliadau ffodus lle mae cronfa fawr o weithwyr parod, e.e. myfyrwyr.

*"Oherwydd y myfyrwyr, does gennyn ni ddim problem dod o hyd i staff."*  
Bwyty, y Canolbarth

- 5.4 Trafodir effeithiau prinder staff isod.

## Effeithiau prinder staff

### C6 (OS MAE PRINDER) "Beth yw effeithiau prinder staff ar eich busnes?" (*Unprompted*)



Gofynnwyd C6 i fusnesau y cafodd prinder staff effaith arnynt

## Llawer o waith a/neu straen

5.5 Mae methu â recriwtio staff yn cael effeithiau negyddol sylweddol ar rai busnesau. Mae perchnogion a/neu weithwyr presennol yn aml yn gorfod gweithio'n galetach i gadw'r busnes i weithredu, ac nid yw hyn yn gynaliadwy yn y tymor hir.

*"Mae'n anodd iawn recriwtio staff profiadol. Dwi'n disgwyl babi yn fuan a dwi wedi gorfod parhau i ddelio â chwsmeriaid a rheoli'r bwyty pan fyddwn i ddim yn ddelfrydol."*

Bwyty, y De-ddwyrain

*"Mae dod o hyd i staff yn hunllef ... rydyn ni wedi bod yn gweithio 80 awr yr wythnos. Erbyn mis Medi, rydyn ni ar ein gliniau."*

Tafarn, y Canolbarth

*"Mae staffio yn broblem wirioneddol. 'Dyw pobl ddim yn trafferthu dod i gyfweliad ar ôl gwneud cais. Mae'n straen mawr i weithwyr presennol, ac maen nhw am roi'r gorau iddi oherwydd hynny."*

Bwyty, y De-ddwyrain

**Mae'r hyn a gynigir gan y sector twristiaeth yng Nghymru ar ei golled o ganlyniad i lai o fasnachu a/neu wasanaethau**

5.6 Mae rhai busnesau wedi gorfod cwtogi gwasanaethau, oriau/diwrnodau masnachu neu hyd yn oed gau'r busnes dros dro oherwydd eu bod yn methu dod o hyd i staff. Mae rhai yn dweud bod y galw yno ond dydyn nhw ddim yn gallu ei gyflawni.

*“Mae archebion yn dda. Beth sy'n ein dal ni'n ôl yw staff.”*  
Hostel, y De-orllewin

*“Dyw'r bwyty ddim hyd yn oed ar agor ar hyn o bryd achos dydyn ni ddim yn gallu dod o hyd i gogydd.”*  
Bwyty, y Gogledd


*“Rydyn ni wedi gorfod cau'r bwyty ar ddydd Llun a dydd Mawrth nes i ni gael cogydd arall.”*  
Llety â gwasanaeth, y Gogledd

*“Dim ond os oes gennyn ni lawer o archebion mewn mis rydyn ni'n agor gan ein bod ni'n methu dod o hyd i staff i aros ar agor.”*  
Parc carafannau, y Canolbarth

## 6. Archebion Ymlaen Llaw a Hyder

### Archebion ymlaen llaw fesul mis

**C7 "Gan edrych ymlaen, faint o'ch capasiti sydd wedi'i archebu ar gyfer .....?" (dangos cyfartaledd deiliadaeth)**



Gofynnwyd C7 i weithredwyr llety. Mae atebion 'ddim yn gwybod' a 'ddim yn berthnasol' wedi eu heithrio.

### Lefelau archebu rhesymol, ond anodd rhagweld nifer gwirioneddol

- 6.1 Ar hyn o bryd, mae tua 70% wedi'i archebu yn y tymor brig ym mis Gorffennaf a mis Awst. Mae beth mae hyn yn ei olygu o ran faint o dwristiaid fydd yn dod mewn gwirionedd yn eithaf anodd rhagweld. Mae'r duedd tuag at archebu mwy ar y funud olaf a drafodwyd yn gynharach yn golygu y gallai llawer o welyau sy'n wag ar hyn o bryd gael eu cymryd. Fodd bynnag, yn groes i hynny, mae tueddiadau canslo y mae rhai gweithredwyr yn eu profi yn golygu efallai na fydd rhai cwsmeriaid presennol yn manteisio ar eu harchebion.
- 6.2 Nid yw'r misoedd ar ôl mis Medi yn aml yn cael eu harchebu tan yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

*"Mae archebion ar gyfer misoedd yr hydref a'r gaeaf fel arfer yn codi ym mis Medi."*  
Parc carafannau, y Canolbarth

### Mae teimlad ymhlith gweithredwyr braidd yn dawel

- 6.3 Mae yna deimlad cyffredinol bod archebion haf eleni ychydig yn siomedig ar ôl i rai gweithredwyr fod mor brysur yr haf diwethaf. Teimlir nad yw'r 70% o gapasiti sydd wedi'i archebu erbyn hyn yn wych – roedd gweithredwyr yn gobeithio am fwy.

*"Rydyn ni ar gapasiti o tua 75% ar gyfer mis Gorffennaf a mis Awst. Rydyn ni'n disgwyl haf tawel iawn gan y bydd pobl yn dechrau mynd dramor eto eleni."*  
Llety â gwasanaeth, y Canolbarth

*"Dydy hi ddim mor fywiog â'r llynedd – rydyn ni'n gobeithio am lawer o archebion ar y funud olaf."*

## Llety â gwasanaeth, y Gogledd

- 6.4 Y cynnydd mewn costau byw a phosibiliadau dechrau mynd dramor eto yw'r ddau ffactor mwyaf cyffredin y credir sy'n achosi'r lefelau archebu siomedig.

*“Mae demograffeg wahanol nawr. Rydyn ni'n cael llawer o westeion hŷn. Arhosodd y rhai iau, rhwng 30 a 45 oed, a oedd ag incwm gwario yma yn ystod COVID-19 ond maen nhw bellach wedi dychwelyd i lefydd fel Tenerife.”*

Llety â gwasanaeth, y Gogledd

*“Mae llawer o bobl yn poeni na fyddan nhw'n gallu fforddio gwyliau eleni ochr yn ochr â'r holl gynnydd arall mewn costau.”*


Parc carafannau, y De-ddwyrain

## Gwahaniaethau fesul rhanbarth a sector

- 6.5 Mae De-ddwyrain Cymru ar ei hôl hi o'i gymharu â gweddill Cymru – mae 60% o'r ddeiliadaeth wedi'i harchebu ar gyfartaledd ar gyfer mis Gorffennaf (o'i gymharu â 73% ar gyfer gweddill Cymru) a 58% o'r ddeiliadaeth wedi'i harchebu ar gyfartaledd ar gyfer mis Awst (72% ar gyfer gweddill Cymru).


- 6.6 Dangosir canlyniadau manwl fesul sector a mis isod.

## Archebion ymlaen llaw fesul sector





**C7 Cynhwysedd wedi'i archebu fesul mis mewn llety maes carafanau**



**Hunanddarpar**

6.7 Ar gyfer y sector hunanddarpar, mae'r capasiti nad yw wedi'i archebu eto a'r lle sydd dal ar gael yn uwch ym mis Gorffennaf nac ym mis Awst. Ym mis Gorffennaf, mae gan ychydig yn llai na hanner y gweithredwyr chwarter neu fwy o'u capasiti ar gael o hyd, tra bod gan 37% chwarter neu fwy o'u capasiti dal ar gael ym mis Awst.

**Llety â gwasanaeth**

6.8 Ar gyfer llety â gwasanaeth, mae'r capasiti nad yw wedi'i archebu eto ac sydd ar gael yn uwch ym mis Awst na mis Gorffennaf, gan adlewyrchu o bosibl amseroedd aros byrrach. Ym mis Gorffennaf, mae gan tua hanner y gweithredwyr â gwasanaeth fwy na chwarter o'u capasiti ar gael o hyd. Mae'r capasiti sbâr yn uwch ym mis Awst, gyda 57% o weithredwyr â gwasanaeth â mwy na chwarter o'u capasiti ar gael o hyd.

**Meysydd carafannau**

6.9 Mae gan y rhain fwy o gapasiti ar gael na'r sector hunanddarpar yn ystod mis Gorffennaf a mis Awst. Mae gan ychydig dros hanner ohonynt chwarter neu fwy o'u capasiti ar gael o hyd ym mhob mis.

**Nid yw gwahaniaethau fesul sector yn adlewyrchu'r teimlad presennol ymhlith gweithredwyr**

6.10 Ar hyn o bryd, mae llety hunanddarpar yng Nghymru wedi'i archebu'n fwy yr haf hwn na charafanau a llety â gwasanaeth. Fodd bynnag, mae disgwyliadau gweithredwyr hunanddarpar ar gyfer archebion ymlaen llaw ar gyfer yr haf yn uwch, ac felly, nid yw eu hwyliau'n fwy cadarnhaol na'r sectorau eraill, yn hytrach maen nhw'n llai. Rydym yn trafod hyn ymhellach o dan C9 (hyder).

*“Roedd y llynedd yn hynod o brysur – mae eleni’n edrych yn ofnadwy.”*


Llety hunanddarpar, Gogledd

*“Rydyn ni’n llenwi’n dda ac rydyn ni hyd yn oed yn cael archebion ar gyfer y flwyddyn nesaf yn barod.”*

Llety â gwasanaeth, y Gogledd

## Disgwyliadau fesul marchnad

**C8 "A sut ydych chi'n disgwyl i'ch lefel o gwsmeriaid o ... fod yr haf hwn o'i gymharu gyda blwyddyn arferol cyn-Covid?"**



## Dibynnir eto ar ymwelwyr domestig

6.11 Am y ddau haf blaenorol yn ystod y pandemig, roedd yn rhaid i weithredwyr ddibynnu'n helaeth ar dwristiaeth ddomestig gan fod teithio hamdden rhyngwladol, ar adegau gwahanol ac o leoedd gwahanol, naill ai'n lletchwith neu ddim yn cael ei ganiatáu o gwbl.

6.12 Yr haf hwn, mae'n ymddangos y bydd diwydiant twristiaeth Cymru yn dibynnu ar ymwelwyr domestig unwaith eto gan nad oes disgwyl eto i ymwelwyr tramor ddychwelyd i lefelau cyn y pandemig. Mae hyn yn gyson ar draws pob rhanbarth a sector.

*“Rydyn ni’n disgwyl haf arferol i dwristiaid o Gymru. Rydyn ni wedi gweld cynnydd yn nifer y twristiaid o'r Iwerddon, o Loegr a'r Alban. Dydyn ni ddim yn gweld twristiaid tramor fel Americanwyr neu Awstraliaid yn dychwelyd eto.”*

Llety â gwasanaeth, y Gogledd

6.13 Mae gweithredwyr yn aros yn bryderus i weld a fydd twristiaid domestig (a) yn dod o hyd i'r arian ar gyfer gwyliau, a (b) yn dewis ei wario yng Nghymru yn hytrach na thramor. Mae'n bosibl y bydd yr anhrefn diweddar gydag oedi a hediadau'n cael eu canslo mewn meysydd awyr yn gwthio rhai pobl i gyfeiriad Cymru ar eu gwyliau.

*“Rydyn ni’n disgwyl i'r haf hwn fod yn eithaf prysur oherwydd gwyliau dramor yn cael eu canslo a phroblemau hedfan.”*

Atyniad, De-ddwyrain

*“Rydyn ni’n meddwl y bydd yr haf hwn yn dawel iawn gan bod dim arian gan bobl i’w wario ar bethau moethus a hobiau oherwydd y cynnydd ym mhrisiau tanwydd a biliau.”*


Atyniad, Canolbarth Cymru

*“Rydyn ni’n mynd i fod yn brysur iawn eleni gan fod gennyn ni ôl-groniad o’r llynedd ond dwi’n meddwl y bydd y flwyddyn nesaf yn dawel iawn gyda mwy o bobl yn mynd dramor.”*

Llety â gwasanaeth, y Gogledd

## Hyder ar gyfer yr haf

**C10 "Pa mor hyderus ydych chi'n teimlo am redeg y busnes yn broffidiol yr haf hwn?"**



### Lefelau rhesymol o hyder am broffidioldeb

6.14 Er gwaethaf costau gweithredu cynyddol ac ychydig o ansicrwydd ynghylch sut y bydd lefelau ymwelwyr yr haf hwn, mae mwyafrif (73%) y gweithredwyr yn hyderus y byddant yn rhedeg eu busnes yn broffidiol. Mae hyn yn debyg iawn i lefelau hyder yr adeg hon y llynedd.

*“Rydyn ni’n disgwyl haf prysur.”*  
Atyniad, De-ddwyrain

*“Rydyn ni mor llawn ag y dymunwn fod ar gyfer misoedd yr haf.”*  
Llety â gwasanaeth, y Canolbarth

6.15 Ymhlith gweithredwyr llety, gweithredwyr hunanddarpar sydd â'r lefelau uchaf o archebion ymlaen llaw (a drafodwyd yn gynharach o dan C7) ond llai o hyder. Nid yw tua chwarter (26%) y gweithredwyr hunanddarpar yn hyderus ynghylch rhedeg y busnes yn broffidiol yr haf hwn.

6.16 Mae'r naws bresennol yn y sector hunanddarpar yn cael ei effeithio gan y rheol '182 diwrnod' newydd sy'n golygu y bydd yn rhaid rhentu tai haf am fwy na 182 diwrnod y flwyddyn o fis Ebrill y flwyddyn nesaf er mwyn bod yn gymwys ar gyfer ardrethi annomestig, ac felly osgoi talu treth gyngor ar yr ail gartref, y mae rhai awdurdodau lleol yn codi tâl ar ei chyfer ar gyfradd premiwm. Ar hyn o bryd y trothwy yw 70 diwrnod. Mae llawer o weithredwyr hunanddarpar yn teimlo eu bod yn 'fusnes gwirioneddol' ond nid yw'n realistig iddynt gyrraedd y trothwy o 182 diwrnod, yn enwedig os nad ydynt yn agos at arfordir, gan nad oes ganddynt ddigon o alw trwy gydol y flwyddyn.

*“Mae cynyddu archebion o 70 i 180 y flwyddyn yn gynnydd aruthrol. I fusnesau sydd ddim mewn ardaloedd arfordirol, mae'n mynd i fod yn anodd iawn.”*

Llety hunanddarpar, Canolbarth


*“Er ein bod ni'n mynd heibio'r trothwy hwn, bydd llawer o fusnesau llai yn cael eu heffeithio'n andwyol iawn. Mae'n mynd i ddinistrio busnesau bach yng Nghymru.”*

Llety hunanddarpar, Canolbarth

## 7. Ymateb i Chwyddiant

### Newid prisiau

**Q11 "Mewn ymateb i gostau gweithredu cynyddol ond hefyd costau byw cynyddol i ddefnyddwyr, a ydych chi neu a ydych yn bwriadu newid eich prisiau ar gyfer yr haf hwn o gymharu a'r hyn y byddech yn ei godi fel arfer?"**



*Mae atebion 'ddim yn gwybod' a 'ddim yn berthnasol' wedi eu heithrio*

### Mae rhai prisiau'n codi, ond nid i raddau sylweddol yn bennaf

7.1 Mae tua hanner (51%) y gweithredwyr yn codi eu prisiau, ond yn y rhan fwyaf o achosion dim ond ychydig. Nid yw llawer (46%) yn newid eu prisiau o gwbl. Maent yn cydnabod bod gan ddefnyddwyr lai o incwm gwario erbyn hyn ac nid ydynt am godi prisiau i'r graddau na fydd cwsmeriaid yn archebu. Mae hyn yn golygu bod busnesau yn cymryd peth o effaith chwyddiant gan nad ydynt yn trosglwyddo cynnydd mewn costau gweithredu yn llawn i'w cwsmeriaid.

*"Gwnaethon ni godi ein prisiau yn ystod COVID-19 a dydyn ni ddim yn teimlo ei bod hi'n deg yn yr hinsawdd bresennol i'w cynyddu eto."*

*Darparwr gweithgareddau, y De-orllewin*

### Fodd bynnag, mae'n ddigon posib y daw cynnydd mewn prisiau yn y dyfodol agos

7.2 Dywed rhai gweithredwyr y gwnaethon nhw eisoes godi eu prisiau ar gyfer eleni ond nad oeddent yn gwybod beth oedd i ddod ac felly byddant yn codi prisiau ar y cyfle nesaf. Bydd eraill hefyd yn ystyried adolygu eu prisiau os bydd costau'n parhau i godi.

*"Dydyn ni ddim yn gwneud unrhyw beth ar hyn o bryd mewn ymateb i gostau gweithredu cynyddol ond byddwn ni'n gwneud mwy yn y dyfodol, adeg yr hydref, pan fydd costau bwyd a gweithredu yn codi eto."*

*Parc carafannau, y Canolbarth*

*"Mae'n rhaid i ni gadw at y prisiau y gwnaethon ni eu gosod ar ddechrau'r flwyddyn."*



Llety â gwasanaeth, y De-orllewin

*“Gwnes i godi'r prisiau adeg y Nadolig. Pe bawn i'n gwybod beth oedd i ddod, byswn i wedi eu codi llawer mwy gan fod bwydlenni'n costio llawer o arian. Mae unrhyw elw yr ydyn ni'n ei wneud yn diflannu oherwydd y cynnydd ym mhris bwyd.”*

Caffi, y De-orllewin

### **Mae costau byw staff hefyd yn cynyddu, nid cwsmeriaid yn unig**

7.3 Ystyriaeth bellach a nodwyd gan rai gweithredwyr yw nad cwsmeriaid yn unig sy'n profi cynnydd yn eu costau byw, ond eu staff eu hunain hefyd. Mae hyn wedi dylanwadu ar gynydd mewn rhai prisiau – er mwyn i'r busnes allu talu mwy i'w staff.

*“Roedden ni eisoes wedi cynyddu ein prisiau achos doedden ni ddim wedi gwneud ers peth amser. Roedden ni eisiau gallu talu mwy i'n hyfforddwyr.”*

Darparwr gweithgareddau, y Gogledd

### **Gwahaniaethau yn ôl sector**


7.4 Y sectorau sydd â'r cyfrannau uchaf o fusnesau yn codi prisiau yn 'sylweddol' yw darparwyr gweithgareddau (13%) a bwytai / tafarndai / caffis (11%), sy'n ei chael hi'n anodd talu cost bwyd. Nid yw'r gwahaniaethau yn ôl rhanbarth yn sylweddol.

*“Rydyn ni wedi codi ein prisiau'n sylweddol gan ein bod ni'n defnyddio cynnyrch drud ac mae hwnnw wedi codi'n sylweddol, fel mae costau gweithredu eraill.”*

Bwyty, y De-ddwyrain

## Ymatebion eraill i gostau gweithredu cynyddol

Q12 "A ydych yn gwneud unrhyw beth arall mewn ymateb i gostau gweithredu cynyddol?" (annog os oes angen)



### Arbed ynni

7.5 Mae gweithredwyr yn cymryd ystod o fesurau, ar wahân i gynnyddu prisiau, i geisio mynd i'r afael â chostau gweithredu cynyddol. Y mesur mwyaf cyffredin ym mhob sector a rhanbarth yw lleihau'r defnydd o ynni. Mae rhai yn rhwystredig o weld nad oes gan eu cwsmeriaid yr un agwedd gynnil.

*"Rydyn ni'n sylwi bod llawer o'n cwsmeriaid yn rhoi'r gwres ymlaen yn llawn ond wedyn yn gadael y ffenestri ar agor led y pen ac mae'n anodd iawn dweud wrthyn nhw i wyllo faint maen nhw'n ei ddefnyddio."*

Llety hunanddarpar, Gogledd

*"Mae llawer o bobl yn troi'r gwres ymlaen pan dydyn nhw ddim i mewn ac yn gadael yr holl oleuadau ymlaen. Mae braidd yn rhwystredig pan dwi'n mynd heibio a gweld bod pobl wedi gadael golau'r ystafell ymolchi ymlaen."*

Llety hunanddarpar, Gogledd

### Defnyddio ffynonellau egni gwahanol

7.6 Mae rhai busnesau yn chwilio am ffynonellau newydd o ynni fel solar i fynd i'r afael â biliau cynyddol.

*"Rydyn ni'n bwriadu gosod paneli solar i leihau'r defnydd o ynni."*

**Cwtogi staff a/neu ddiwrnodau/oriau agor**

- 7.7 Mae rhai busnesau yn torri costau drwy gwtogi eu horiau agor, ac yn gysylltiedig â hyn mae'r arbedion a wneir o ran gyflogi staff.

*“Rydyn ni wedi lleihau ein horiau gweithredu i bump diwrnod yr wythnos gan mai dydd Sul a dydd Llun yw ein dyddiau tawelaf ac allwn ni ddim fforddio'r staff i agor ar y ddau ddiwrnod hyn. Mae hyn hefyd yn lleihau ein defnydd o ynni os nad ydyn ni'n agor ar y dyddiau hynny.”*

Llety â gwasanaeth, y Canolbarth

*“Rydyn ni'n cadw niferoedd ein staff yn isel ... mae gennyn ni dîm o chwech ond rydyn ni'n gorfod cau'r gegin ar rai diwrnodau i gadw costau'n isel gan fod ein biliau wedi codi £1,000 y mis.”*

Llety â gwasanaeth, y Canolbarth


## 8. Ardoll ymwelwyr lleol

### Safbwyntiau ar sut i wario'r arian os caiff ei weithredu

8.1 Cyn gofyn C13, darllenwyd y datganiad canlynol i ymatebwyr:

*“Yn ystod y hydref, bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar gynigion ar gyfer ardoll ymwelwyr lleol. Lle caiff ei chyflwyno, bydd gan bob awdurdod lleol y pŵer i benderfynu a ddylid codi ardoll ar ymwelwyr sy'n aros dros nos yn eu hardal. Nid ydym yn gofyn a ydych yn meddwl p'un a dylid cyflwyno ardoll ai peidio, gan y byddwch yn cael cyfle i ymateb yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru yn ystod yr ymgynghoriad os dymunwch.”*

#### C13 "Pe bai'r ardoll yn mynd yn ei blaen yn eich ardal chi, ar beth ydych chi'n meddwl y dylai eich awdurdod lleol wario'r arian?" (annog os oes angen)



### Gwella'r pethau sylfaenol sydd yno yn barod

8.2 Mae gweithredwyr wedi cynnig amrywiaeth o awgrymiadau ar sut y dylid gwario arian ardoll leol. Mae'r atebion yn tueddu at wella a chynnal seilwaith a gwasanaethau sydd eisoes yn bodoli yn hytrach na chreu rhai newydd sbon.

*“Rydyn ni'n meddwl y dylai gwella'r seilwaith presennol fod yn brif flaenoriaeth i arian yr ardoll.”*

Atyniad, y Gogledd

*“Mae angen glanhau promenâd Aberystwyth, felly dyna fyddai'r lle gorau i wario'r arian.”*

Bwyty, y Canolbarth

*“Mae angen i'r arian o'r ardoll fynd i wneud yr atyniadau sydd eisoes yn bodoli yn berffaith. Nid yw pobl Aberystwyth yn hoffi newid, felly byddai gwella atyniadau sydd eisoes yn bodoli yn well.”*

Caffi, y Canolbarth

*“Mae'r dref [Hwlfordd] wedi marw. Mae chwyn a sbwriel ym mhobman. Mae'r siopau ar gau. Mae'n edrych fel bod bom niwclear wedi'i ollwng ar y dref a rydyn ni newydd ddod allan o ryfel niwclear. Mae gen i gywilydd. Mae'n ffiائد. Mae twristiaid yn gadael adolygiadau amdano.”*

Llety â gwasanaeth, y De-orllewin

8.3 Gwasanaethau a seilwaith a amlygwyd fel meysydd penodol i ganolbwyntio arnynt yw:

- Toiledau
- Ffyrdd
- Meysydd parcio
- Trafnidiaeth gyhoeddus

8.4 Mae tri o'r uchod yn ymwneud â mynediad. Mae llawer o gynrig twristiaeth Cymru yn anghysbell ac yn wledig - rhesymau allweddol pam mae ymwelwyr yn dod. Ond gall fod yn anodd cyrraedd, neu deithio o gwmpas, llawer o leoedd.

*“Byddai gwelliannau i dtrafnidiaeth wledig ledled Cymru yn helpu llawer gyda thwristiaeth.”*

Llety â gwasanaeth, y De-orllewin

*“Mae prinder meysydd parcio yn Llandudno y gallai'r ardoll dalu amdano.”*

Llety â gwasanaeth, y Gogledd

*“Byddai gosod wyneb newydd ar y ffordd yn enwedig i lawr at y llyn yn ddefnyddiol.”*

Parc carafannau, y Canolbarth

*“Mae angen parthau parcio newydd mewn ardaloedd fel Ogwen a Phen-y-Pass.”*

Atyniad, y Gogledd

*“Gallai'r ardoll wella trafndiaeth gyhoeddus yn arbennig yn ein hardal ni.”*

Parc carafannau, y Canolbarth

8.5 Mae toiledau cyhoeddus yn hanfodol ym mhob ardal dwristiaeth ond nid ydynt bob amser ar agor neu'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda.

*“Mae'r pentref wedi cau ei doiledau cyhoeddus felly mae llawer o ymwelwyr yn dod i'r maes carafannau yn gofyn am gael defnyddio toiledau ein staff.”*

Parc carafannau, y Canolbarth

*“Mae angen cyfleusterau gwell ar Borthcawl, fel mwy o leoedd parcio a mwy o doiledau cyhoeddus.”*

### Marchnata'r ardal i dwristiaid

- 8.6 Mae rhai ardaloedd yn gwybod bod niferoedd mawr o dwristiaid yn dod i Gymru, ond nid ydynt o reidrwydd yn dod i'w hardal. Byddai defnyddio arian ardoll leol ar gyfer marchnata yn un ffordd o wasgaru ymwelwyr i Gymru yn fwy cyfartal ar draws gwahanol ardaloedd.

*“Rydyn ni'n meddwl y byddai arian tuag at farchnata'r ardal yn gwneud rhyfeddodau i ni. Wnes i erioed feddwl am y math yna o gyllid o'r blaen.”*

Llety hunanddarpar, De-orllewin

*“Dylai arian yr ardoll gael ei wario ar wneud mwy o swyddfeydd twristiaeth yng Nghymru – i helpu i gyfeirio twristiaid i'r mannau lleol gorau. Pe bai gan y lleoedd hyn wefannau modern da iawn, byddai hefyd yn helpu.”*

Parc carafannau, y Canolbarth

### Atyniadau newydd

- 8.7 Os yw arian ardoll am gael ei wario ar greu rhywbeth newydd, mae angen atyniadau newydd mewn rhai ardaloedd, yn enwedig rhai dan do ar gyfer y gaeaf a/neu dywydd garw.

*“Mae'r gaeafau yn dawel iawn yma gan fod yr holl atyniadau ar gau felly does dim byd i ymwelwyr ei wneud.”*

Llety â gwasanaeth, y Gogledd

*“Angen mwy o gyfleusterau dan do yn Llandudno fel bowlïo deg neu rywbeth tebyg y gall y teulu cyfan ei fwynhau pan mae'n bwrw glaw.”*

Llety â gwasanaeth, y Gogledd

### Twristiaeth gynaliadwy

- 8.8 Hoffai rhai weld arian ardoll leol yn cael ei wario ar annog twristiaeth gynaliadwy neu'i galluogi.

*“Rydym yn ystyried gosod pwyntiau gwefru trydan gan fod gan rai o'n gwesteion geir trydan felly byddai'n ddefnyddiol pe bai rhai gan yr ardal leol.”*

Parc carafannau, y Gogledd

### Materion ymddiried

- 8.9 Mae rhai gweithredwyr braidd yn amheus y bydd arian ardoll yn cael ei wario ar dwristiaeth leol. Mae ofn y bydd yn diflannu i ryw fath o bot cyffredinol neu'n disodli cyllidebau eraill ac na fydd twristiaid yn elwa arno mewn gwirionedd. Os bydd yr ardoll yn mynd rhagddo, bydd angen i'r fasnach roi sicrwydd y bydd yr arian yn cael ei wario ar yr hyn y bwriadwyd iddo ei wneud.

*“Dydw i ddim yn ymddiried yn yr awdurdod lleol i dalu’n ôl i’r economi twristiaeth lleol.”*

Tafarn, y Canolbarth

*“Dwi ddim yn meddwl y bydd yr ardoll yn gweithio gan y bydd yn gwneud i’r awdurdodau lleol roi’r gorau i ddefnyddio eu harian i wario ar dwristiaeth a defnyddio’r ardoll yn lle hynny, a fydd yn cyfateb i lai o arian yn gyffredinol.”*

Llety hunanddarpar, y De-ddwyrain

### **Awgrymiadau eraill**

8.10 Mae awgrymiadau ‘eraill’ nad ydynt yn perthyn i’r prif gategoriâu uchod yn cynnwys hyfforddiant staff, ynghyd â rhai syniadau nad ydynt yn ymwneud â thwristiaeth megis cefnogi cymunedau lleol (yn hytrach na thwristiaid), busnesau lleol bach a’r GIG. Gallai buddsoddi mewn hyfforddiant staff lleol helpu i fynd i’r afael â’r prinder staff.

*“Pe bai unrhyw arian o ardoll, dylai fynd ar hyfforddiant staff i bobl yn y sector lletygarwch. Cyn COVID-19, roedden ni’n cyflogi 28 aelod o staff rhan amser yn ein cegin ni, a nawr rydyn ni wedi cau’r gegin ac yn ei chael yn anodd dod o hyd i bum aelod o staff ar gyfer ein tecawê.”*

Parc carafannau, y Gogledd